


GORSAF BARCFFORDD

Cydnabuwyd yn yr astudiaeth Cam Un y gallai darparu gorsaf barcfordd ddwyn buddion teithio cynaliadwy sylweddol i'r rhanbarth.

Mae darparu gorsaf barcfordd yn ychwanegol at ddewisiadau priffordd 1 a 2 gan y byddai angen mynediad gwell o'r A48 i wireddu manteision gorsaf newydd ar gyfer Bro Morgannwg.

Nid yw'r dewis i ddarparu gorsaf barcfordd newydd ar y llinell reilffordd o Gaerdydd i Ben-y-bont ar Ogwr yn agos at Gyffordd 34 yr M4 wedi'i ddylunio ymhellach yn rhan o'r astudiaeth Cam Dau hon gan fod hyn yn dibynnu ar asesiad technegol pellach, er enghraifft proses GRIP Network Rail. Bydd angen ei ystyried fel rhan o'r cynigion ar gyfer y Metro a'r fasnachfaint reilffordd.




Fodd bynnag ystyriodd yr astudiaeth Cam Dau effeithiau a buddion tebygol y canlynol:

- Gorsaf barcfordd ger Cyffordd 34 a wasanaethir gan wasanaethau rheilffordd lleol rhwng Caerdydd a Maesteg a gwasanaethau prif lein posibl ar Brif Lein De Cymru, rhwng Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr.
- Cyfnewidfa gyda gwasanaethau bysus lleol a rhanbarthol, gan gynnwys gwasanaethau rhwng coridor yr A4119 a Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan.
- Cyfleusterau parcio ceir i adlewyrchu y lleoliad strategol ar yr M4 i'r gorllewin o Gaerdydd.



Lleoliad yr Orsaf

Nid yw lleoliad yr orsaf wedi'i bennu ar hyn o bryd, gan y bydd yn dibynnu ar waith dichonoldeb pellach. Rhagwelir y bydd mewn coridor llydan wedi'i ffinio gan Feisgyn i'r gogledd-orllewin ac i'r dwyrain o bentref Pendeulwyn yn y de.



Cost a Chyllid y Dewis

Ni wyddys costau datblygu gorsaf barcfordd ar hyn o bryd a byddant yn dibynnu ar ddatblygu pellach. Fel arfer, gallai gorsaf newydd gyda chyfnewidfa chyfleusterau parcio a theithio gostio £25m.



Tybir ei bod yn debygol y bydd angen cyllid ar gyfer gorsaf barcfordd fel rhan o ddatblygu'r Metro, gan ddefnyddio cyllid trwy'r Fargen Ddinesig/ Trafnidiaeth Cymru/Llywodraeth Cymru.

Gwella Trafnidiaeth Strategol yn Amgylchynu Coridorau ar gyfer Cyffordd 34 yr M4 i'r A48 gan gynnwys Coridor Pendeulwyn

Cam Dau WelTAG: Achos Busnes Amlinellol

